CIWB

# Beth ydych chi'n feddwl o ...?

# Wythnos Siocled

## Beth ydych chi'n feddwl o siocled?




Beth ydych chi'n feddwl o ...?

- siocled poeth
- cacen / teisen siocled
- grawnfwyd siocled
- creision siocled
- past dannedd siocled




Os ydych chi’n hoffi siocled, mae mis Hydref yn wych i chi – achos mae Wythnos Siocled ym mis Hydref.

## Edrychwch ar y sioe sleidiau yma.










″ 'Nôl

Nesaf »











″ 'Nôl Nesaf »

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| blasus | delicious |
| afiach | unhealthy |
| gormod o | too much |
| cael | to be allowed to |
| grawnfwyd | cereal |
| mis | month |
| blasu | to taste |
| gwerthu | to sell |
| teithiau cerdded | walks |
| celf | art |

## Geiriau diddorol

- blas (taste)
- blasus (delicious)
- blasu (to taste)

## Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

- hot chocolate
- toothpaste
- fashion show

# Ble mae Sam?

Haia, Ceri.

Wyt ti'n well? Mae'r giang yn dweud, "Helo!".

Wel, rydyn ni yma ac rydyn ni'n cael hwyl. Rydyn ni'n aros mewn pabell fach (iawn!) ac mae'r dillad glân a'r bwyd mewn *wheelie bins* (glân!) tu allan i'r babell. Mae Dad a Mam yn cysgu mewn pabell arall achos maen nhw eisiau "cadw llygad arnon ni!". Hy!

Mae'r bandiau'n ardderchog. Roedd Lily Allen yn wych neithiwr. Mae hi'n canu'n wych. Roedd Metallica'n gyffrous. Mae Ed Sheeran yn canu yfory. Mae e'n anhygoel.

Wela i di penwythnos nesa – cofia dy welis!

Sam

Ceri Williams

4 Yr Allt Fawr

Llandybïe

Sir Gaerfyrddin

SA100 6TT

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| yn well | better |
| yma | here |
| pabell | tent |
| cadw | to keep |
| llygad | eye |
| arnon ni | on us |
| penwythnos | weekend |

| | |
|---|---|
| cofia | remember |

## Beth ydy'r geiriau Saesneg?

giang

welis

# Socci

Edrychwch ar y ffilm yma.

**The Sport of Socci played by Charleston Battery Soccer players**

from Socci

01:17

The Sport of Socci played by Charleston Battery Soccer players (https://vimeo.com/61037212) from Socci (https://vimeo.com/socci) on Vimeo (https://vimeo.com).

**Socci** ydy enw'r gêm yma ond sut mae pobl yn chwarae Socci?

Edrychwch ar y ffilm eto ac yna gweithiwch allan beth ydy'r rheolau.

## Y Rheolau

- Rhaid cicio'r bêl.
- Rhaid penio'r bêl.
- Dim dwylo!
- I sgorio, rhaid cicio neu benio'r bêl i mewn i'r rhwyd.
- Mae pob chwaraewr yn cael rhedeg o gwmpas y cae.
- Mae pob chwaraewyr yn cael sgorio.

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| gweithio allan | to work out |
| rheol,-au | rule,-s |
| dwylo | hands |
| penio | to head |
| rhwyd | net |
| pob | every |
| cael | to be allowed to |
| o gwmpas | around |
| cae | field |

## Beth ydy'r gair Cymraeg?

player

to score

# Rhyfedd!

Rydych chi'n mynd i wylio ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

## Help

| Geirfa | |
|---|---|
| rhyfedd | strange |
| stondin | stall |
| y rhain | these |
| maint | size |
| hosan, sanau | sock, socks |
| peiriant golchi | washing machine |
| ar ôl | left (over) |
| marchnad | market |
| y cant | per cent |
| i ffwrdd | off |
| dwstio | to dust |
| llawr | floor |
| golau | light |

# Kung fu



Mae Ceri Williams yn mynd i ddosbarth arbennig. Darllenwch y sgwrs yma.

| | |
|---|---|
| **Ciwb:** | Rwyt ti'n mynd i ddosbarth arbennig bob wythnos. Pa ddosbarth? |
| **Ceri:** | Dosbarth kung fu. |
| **Ciwb:** | Beth wyt ti'n wneud yn y dosbarth? |
| **Ceri:** | Dw i'n dysgu sgiliau ymladd a sgiliau eraill. |
| **Ciwb:** | O? Pa sgiliau? |
| **Ceri:** | Dw i'n dysgu bod yn bositif. Dw i'n dysgu sut i fihafio'n dda. Dw i'n dysgu sut i helpu pobl eraill. Dw i'n dysgu sut i weithio'n galed – ac mae hyn yn help yn yr ysgol. Dw i'n dysgu sut i fyw'n iach a sut i gadw'n heini. |
| **Ciwb:** | Sut mae kung fu yn helpu i gadw'n heini? |
| **Ceri:** | Wel, dw i'n dysgu sgiliau ymladd … Dw i'n dysgu sut i bwnsho, bwrw neu daro, cicio a sut i wneud symudiadau arbennig. Mae llawer o'r symudiadau fel symudiadau anifeiliaid. |
| **Ciwb:** | Beth wyt ti'n wisgo i wneud kung fu? |

| | |
|---|---|
| **Ceri:** | Dw i'n gwisgo dillad coch ond mae rhai pobl yn gwisgo lliwiau eraill fel glas. |
| **Ciwb:** | Wyt ti'n mwynhau? |
| **Ceri:** | Ydw. Dw i wrth fy modd yn gwneud kung fu achos mae'n ffordd dda o gadw'n heini ond hefyd mae kung fu yn hwyl – rydyn ni'n dysgu dawns y ddraig cyn y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd bob blwyddyn ac rydyn ni'n perfformio'r ddawns yn y dre a hefyd dw i'n gwneud ffrindiau newydd yn y dosbarthiadau kung fu. |
| **Ciwb:** | Ble wyt ti'n dysgu kung fu? |
| **Ceri:** | Yn y Ganolfan Hamdden. |
| **Ciwb:** | Oes llawer o bobl ifanc yn mynd? |
| **Ceri:** | Mae tua un deg pump o bobl ifanc yn mynd bob wythnos. Mae pawb yn cael amser da ac mae pawb yn dysgu sgiliau pwysig. |
| **Ciwb:** | Ydy hi'n bosib dysgu Kung fu yn yr ysgol? |
| **Ceri:** | Nac ydy ond hoffwn i ddysgu kung fu yn yr ysgol achos mae kung fu yn well na chwaraeon ysgol. Mae'n well gen i kung fu na chwarae pêl-droed neu nofio. Hoffwn i gael gwersi yn yr ysgol. Rhaid i ysgolion Cymru ddechrau dysgu kung fu. |
| **Ciwb:** | Wel, Ceri, diolch yn fawr am siarad â fi. |
| **Ceri:** | Croeso. |

## Geiriau diddorol:

| | | |
|---|---|---|
| symud (to move) | symudiad (movement) | symudiadau (movements) |

## Pwysig! Pwysig! Pwysig!

yn well na – better than

Mae'n well gen i ... na ... – I prefer ... to ...

Mae'n well gyda fi ... na ... – I prefer ... to ...

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| ymladd | to fight |
| pwysig | important |
| bihafio | to behave |
| yn galed | hard |
| cadw'n heini | to keep fit |
| bwrw | to hit |
| taro | to hit |
| y ddraig | the dragon |
| dathlu | to celebrate |

## Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

positive

skills

to punch

to kick

# Rhaglenni realiti

Enwch 5 rhaglen realiti.

Yna, meddyliwch ...


Beth ydy rhaglen realiti?

Rhaglen realiti ydy rhaglen gyda phobl “real” – ddim actorion.

Does dim sgript.

Beth ydych chi’n feddwl o raglenni realiti? Dyma farn rhai pobl ifanc.

| | |
|---|---|
| **Irfan**  | Mae rhaglenni realiti’n cŵl. Fy hoff raglen realiti ydy *The Island,* gyda Bear Grylls. Mae’n gyffrous ac mae’n wahanol iawn. Dw i wrth fy modd yn gwylio’r bobl yn byw ar yr ynys. |
| **Sophie:**  | Dw i’n anghytuno. Dw i’n meddwl bod y rhaglen yn wirion. Dw i ddim eisiau gweld pobl yn chwilio am fwyd a dŵr ac yn trio byw ar ynys. Mae’n well gen i *The X Factor* achos dw i’n mwynhau cerddoriaeth. Dw i eisiau mynd ar *The X Factor* – neu *The Voice*, neu *Britain’s Got Talent*. |
| **Irfan:**  | Wyt ti’n gallu canu? |
| **Sophie:**  | Wel ... mmm ... dw i ddim yn **ddrwg**. |
| **Irfan**  | O diar! Embaras! |
| **Matt:** | Mm – *Britain’s Got Talent*? Oes ci gyda ti? Ydy e’n gallu perfformio? Ydy e’n gallu |

| | |
|---|---|
|  | canu, dawnsio neu hopian? |
| **Sophie:**  | Dw i'n mynd i **ganu** ar y rhaglen. |
| **Akiko:**  | Pob lwc! Dw i'n mwynhau rhaglenni cerddoriaeth hefyd ond dw i ddim yn mwynhau'r storïau trist ar raglenni realiti, "Dw i'n 18 oed. Dw i'n byw mewn fflat fach iawn iawn mewn dinas fawr iawn. Dw i'n gweithio'n galed iawn wrth y til mewn siop drwy'r dydd ddydd Sadwrn achos rhaid i fi gael arian - bla bla bla." Dw i ddim eisiau clywed y stori yma. Dw i eisiau clywed y gerddoriaeth! |
| **Irfan:**  | Ond mae storïau trist yn bwysig mewn rhaglenni realiti achos rydyn ni'n teimlo dros y bobl. |
| **Tom:**  | Beth ydych chi'n feddwl o raglenni coginio fel *Super Chef* neu *The Great British Bake Off?* Dw i'n mwynhau'r rhaglenni yma'n fawr achos dw i'n dysgu sgiliau coginio. |
| **Sophie:**  | A fi. Maen nhw'n wych. |
| **Matt:**  | Diflas! Does dim byd yn digwydd. Dw i'n cytuno gydag Irfan – mae *The Island* yn gyffrous! |

## Pwysig! Pwysig! Pwysig!

Dw i wrth fy modd yn ... – I love ...

Mae'n well gen i ... – I prefer ...

Mae'n well gyda fi ... – I prefer ...

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| ynys | island |
| gwirion | silly |
| chwilio am | to search for |
| gallu | to be able to, can |
| hopian | to hop |
| coes | leg |
| pwysig | important |
| teimlo dros | to feel for |
| dim byd | nothing |
| digwydd | to happen |

## Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

to try

embarrassing, embarrassment

# Bwyta allan

Edrychwch ar y llun yma'n ofalus.



1. Faint o bobl sy yn y llun a beth maen nhw'n wneud?
2. Beth sy ar y waliau?
3. Edrychwch ar y cadeiriau'n ofalus. Beth ydyn nhw?
4. Pam mae'r bobl yn y lle yma, tybed?

Nawr, edrychwch ar y llun yma'n ofalus.




5. Faint o bobl sy yn y llun yma a beth maen nhw'n wneud?

6. Beth sy ar y bwrdd?

7. Edrychwch ar siâp y bowlen – beth ydy'r siâp?

8. Edrychwch ar y cadeiriau'n ofalus. Beth ydyn nhw?

9. Ydy'r bobl yn hapus? Rhowch resymau dros eich ateb.




10. Ble mae'r bobl yma a'r bobl yn y llun cyntaf?

Siaradwch am hyn ac yna ewch i'r adran **Atebion**.



Help

| Geirfa | |
|---|---|
| cadair, cadeiriau | chair, chairs |
| siâp | shape |
| powlen | bowl |

# Siocled teg



Preswylfa

Ffordd yr Afon

Aberystwyth

29 Medi 2015

Annwyl Ciwb,

Dw i wrth fy modd yn bwyta siocled – a dw i wrth fy modd yn bwyta un math o siocled yn arbennig – Divine – siocled Masnach Deg.

Pam dw i wrth fy modd yn bwyta'r siocled yma?

Wel, yn gyntaf, mae'r siocled yn dda iawn ac mae blasau gwahanol fel oren, mint, cnau a ffrwythau, siocled gwyn gyda mefus a hefyd siocled tywyll

gyda mafon- dyna fy hoff siocled i a dweud y gwir.

Ond mae'r siocled yn dda am reswm arall hefyd.  I wneud siocled, rhaid cael ffa coco. Mae ffermwyr yn Asia, Affrica a De America'n tyfu'r ffa yma ac maen nhw'n gwerthu'r siocled i gwmnïau siocled. Mae rhai cwmnïau'n gwneud llawer o elw – maen nhw'n prynu'n ffa coco'n rhad ac yna maen nhw'n gwerthu'r siocled am bris mawr. Ond mae Masnach Deg yn prynu'r ffa oddi wrth y ffermwyr am bris teg iawn a hefyd maen nhw'n rhoi arian i helpu i wella'r ffermydd ac i helpu gyda phrosiectau fel adeiladu clinics, toiledau ac ysgolion. Felly, maen nhw'n gwneud gwaith da iawn.

Rydych chi'n gallu gweld logo Masnach Deg ar siocled arall hefyd – mae'n dangos bod y ffermwyr wedi cael pris teg am y ffa coco.

Felly, y tro nesaf rydych chi'n prynu siocled, chwiliwch am far o Divine neu siocled gyda logo Masnach Deg – achos mae prynu'r bar yna'n helpu ffermwr coco.

Yn gywir,

Lyn Thomas

Geirfa

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Masnach Deg | Fair Trade |
| blas, blasau | flavour, flavours |
| cnau | nuts |
| mefus | strawberries |
| tywyll | dark |
| mafon | raspberries |
| a dweud y gwir | to tell the truth |
| rheswm | reason |
| tyfu | to grow |
| gwerthu | to sell |
| elw | profit |
| cwmnïau | companies |
| rhad | cheap |
| teg | fair |
| gwella | to improve |
| adeiladu | to build |
| y tro nesaf | next time |

# Siocled! Siocled! Siocled!

Rydych chi'n mynd i wylio ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| hoff | favourite |
| taffi | toffee |
| cnau | nuts |
| math, mathau | kind, kinds |
| teg | fair |
| masnach deg | fair trade |

Siocled! Siocled! Siocled! - Trawsgrif

**Llais:** Beth ydy dy hoff siocled di?

**Person 1:** Cadbury's Dairy Milk achos mae'n flasus iawn.

Mmm – blasus!

**Person 2:** Galaxy achos mae'n fendigedig.

**Person 3:** Dw i'n hoffi bwyta Mars achos dw i'n hoffi'r siocled a'r taffi a'r nougat.

**Person 4:** Mae'n well gen i Snickers achos dw i wrth fy modd yn bwyta cnau.

**Person 5:** Dw i'n hoffi Twix achos mae dau far mewn pecyn.

**Person 6:** Hm hm!

**Person 5:** Un i ti ... ac un i fi.

**Person 6:** Diolch yn fawr!

**Person 7:** Crunchie ydy fy hoff siocled i achos mae'r *honeycomb* yn gyffrous –mae'n byrstio yn fy ngheg i.

**Llais:** Oes, mae llawer o fathau gwahanol o siocled.

Ac wrth gwrs, mae'n bosib bwyta ...

... cacennau siocled ...

... pain au chocolat ... ...

... grawnfwyd siocled ...

... ac mae'n bosib **yfed** siocled hefyd ...

... **a** bwyta siocled ar fara ... neu wneud brechdanau siocled.

... a dyma greision siocled

a beth am bast dannedd siocled hefyd?

Mmmm?!?!?

Ond dewch yn ôl at y bariau siocled unwaith eto.

Edrychwch ar y mathau gwahanol o fariau siocled ...

Ond beth ydy hwn?

Bar siocled Divine.

Mae'r siocled yma'n arbennig iawn achos siocled Masnach Deg ydy e ...

... I **wneud** siocled, rhaid cael ffa coco. Mae ffermwyr yn Affrica, Asia a De America yn **ffermio'r** ffa coco ac yna maen nhw'n **gwerthu'r** ffa coco. Os ydych chi'n gweld bar siocled Divine, rydych chi'n gwybod bod y ffermwyr wedi cael pris teg am y ffa coco.

Ond edrychwch ar y logo yma ar y bariau yma ...

Dyma logo Masnach Deg eto. Felly, mae'r ffermwyr coco yma wedi cael pris teg am y ffa coco hefyd.

Gwych!

## Pwysig! Pwysig! Pwysig!

Mae’n well gen i … – I prefer …

Mae’n well gyda fi … – I prefer …

# Bwyta ar y we

Beth ydych chi'n hoffi bwyta yn y nos?

Gyda pwy ydych chi'n hoffi bwyta?

Ble ydych chi'n bwyta yn y nos?

Am faint o amser ydych chi'n bwyta?

Os ydych chi wedi ateb, "Dw i'n hoffi bwyta salad gyda'r teulu yn y gegin. Dw i'n bwyta am hanner awr," rydych chi'n wahanol iawn i'r Diva – neu Park Seo-Yeon! Mae hi'n bwyta swper mawr iawn – swper enfawr, gyda miloedd o bobl, ar y we, am dair neu bedair awr yn y nos.

**Pwy?**

Park Seo-Yeon – mae hi'n 34 oed ac mae hi'n byw yn Ne Korea.

**Pam mae hi'n bwyta ar y we?**

Achos mae miloedd o bobl yn gwylio Park yn bwyta bob nos ac os ydyn nhw'n mwynhau, maen nhw'n rhoi arian iddi hi. Mae hi'n ennill tua £5,500 bob mis yn bwyta ar y we.

**Beth sy'n digwydd?**

Mae Park yn paratoi'r bwyd – llawer o fwyd. Yna mae hi'n bwyta yn y gegin. Mae hi'n ffilmio hyn ac mae'r ffilm yn mynd ar y we. Mae hi'n defnyddio microffon i siarad â'r gwylwyr.

**Pam mae pobl yn gwylio Park?**

Mae rhai pobl yn unig ac maen nhw eisiau cwmni pan maen nhw'n bwyta. Felly, maen nhw'n gwylio Park ac maen nhw'n bwyta swper "gyda hi". Dydyn nhw ddim yn teimlo'n unig. Maen nhw'n bwyta swper gyda "ffrind".




Hefyd, mae rhai pobl ar ddiet yn mwynhau gwylio. Maen nhw'n mwynhau'r bwyd ond dydyn nhw ddim yn bwyta'r caloriau.

Beth ydych chi'n feddwl?

## Geiriau diddorol:

gwylio (to watch) gwyliwr (viewer) gwylwyr (viewers)

Help

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| y we | the internet |
| enfawr | huge |
| miloedd | thousands |
| os | if |
| iddi hi | to her |
| paratoi | to prepare |
| hyn | this |
| cwmni | company |
| unig | lonely |

## Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

supper

to film

on a diet

calories

# Hunluniau




Ydych chi'n tynnu hunlun weithiau?

Pryd?

Pam?

Faint o amser mae'n gymryd? Sawl eiliad?

Edrychwch ar yr hunlun yma.  Dyma'r hunlun cyntaf, efallai.

## ℹ Yr hunlun cyntaf



Robert Cornelius ydy enw’r dyn yn y llun. Roedd o’n sefyll yn yr iard tu ôl i siop y teulu yn Philadelphia i dynnu’r llun ym mis Hydref 1839. Roedd rhaid sefyll yn yr iard am sawl munud i dynnu’r llun.
Ar gefn y llun, mae’r geiriau: “The first light picture ever taken."

Mae hunluniau’n hwyl fel arfer ond darllenwch y blog yma:



gan:
**Angharad**

18 Medi 2015

# Newyddion ffantastig!

Newyddion ffantastig! Mae Lyn a fi’n mynd i’r gig yn y parc nos Sadwrn Awst 28. Mae bandiau mawr yn dod. Dw i’n edrych ymlaen.



gan:
**Angharad**

22 Awst 2015

## Amser gwych

Ces i amser gwych heddiw. Es i i'r dre gyda Lyn i brynu dillad newydd i'r gig – trowsus a siaced hyfryd. Yna, pizza a ffilm. Roedd hi'n braf iawn – heulog iawn. Gobeithio bydd hi'n braf nos Sadwrn! Dw i'n edrych ymlaen.



gan:
**Angharad**

25 Awst 2015

## Dim llawer o amser!

Dim llawer o amser! Mae Lyn yn dod yma mewn pum munud ac rydyn ni'n mynd i'r gig. Dw i'n teimlo'n gyffrous iawn. Dw i'n edrych ymlaen yn fawr. Hwyl fawr!



gan:
**Angharad**

29 Awst 2015

## Siomedig!

Siomedig! Roedd neithiwr yn siomedig iawn. Roedd y bandiau'n wych ond roedden ni'n sefyll tu ôl i giang o ferched tal, swnllyd ac roedden nhw'n tynnu hunluniau drwy'r amser. Roedden nhw'n troi rownd, gyda'u cefnau at y llwyfan ac yn ein hwynebu ni, ac yna roedden nhw'n tynnu hunluniau drwy'r nos. Roedden nhw'n sbwylio popeth!



## Geiriau diddorol:

hun (self) + llun (picture) = selfie

wyneb (face) wynebu (to face)

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| hunlun, hunluniau | selfie, selfies |
| tynnu | to take |
| cymryd | to take |
| eiliad, eiliadau | second, seconds |

| | |
|---|---|
| sawl | several |
| cefn, cefnau | back, backs |
| edrych ymlaen | to look forward |
| prynu | to buy |
| gobeithio | hopefully |
| siomedig | disappointing |
| sefyll | to stand |
| llwyfan | stage |
| wynebu | to face |

# Dim technoleg!

Rydych chi'n mynd i wrando ar eitem ar raglen newyddion. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

Help

| Geirfa | |
|---|---|
| cynllun | scheme |
| gallu | to be able to, can |
| heb | without |
| symudol | mobile |
| treulio | to spend (time) |
| gormod | too much |
| ac ati | etc. |
| ar y we | on the internet |
| anodd | difficult |
| hir | long |

Dim technoleg! -3:58

## Geiriau diddorol:

- symud (to move)
- symudol (mobile)

## Pwysig! Pwysig! Pwysig!

Mae’n well gen i ... – I prefer ...

Mae’n well gyda fi ... – I prefer ...

ar un llaw ... – on the one hand ...

ar y llaw arall ... – on the other (hand)